Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Adolygiad Buddsoddi 2023

## Ariannu dyfodol y celfyddydau yng Nghymru

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Adolygiad Buddsoddi 2023

## Cynnwys


**RHAN UN: ESBONIAD O'N MODEL A'N GWELEDIGAETH NEWYDD**

1 – Byd sydd wedi newid am byth, ac sy'n newid yn barhaus 03

2 – Nodyn i'ch atgoffa o sut rydym yn ariannu sefydliadau'r celfyddydau 04

3 – Golwg newydd ar ein cyllid – y cyd-destun ar gyfer newid 05

4 – Hanfodion ein dull ariannu newydd 09

a) Blaenoriaethau ar gyfer ein cyllid 09

b) Strwythur newydd ar gyfer ein cyllid 12

c) Beth fyddwn ni'n ei ddisgwyl gan sefydliadau'r celfyddydau? 13

**RHAN DAU – YMUNO Â'N TAITH – SUT A PHRYD**

1 – Ein hymrwymiad i chi 15

2 – Sut y gall sefydliadau wneud cais am gyllid amlflwyddyn 17

a) Trosolwg o'r broses 17

b) Llinell amser 17

3 – Ein proses asesu 18

4 – Sut y byddwn yn asesu ceisiadau 18

5 – Ein cynnig ariannu 19

a) Cynigion ac estyniadau 19

b) Rheolaeth Cyngor Celfyddydau Cymru o gyllid yn y dyfodol 19

6 – Monitro ac atebolrwydd 20

7 – Cymhwysedd 21

8 – Apelau 22

9 – Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data 22

10 – Beth yw eich barn chi? 23

# RHAN UN:
# ESBONIAD O'N MODEL A'N GWELEDIGAETH NEWYDD

## 1 – Byd sydd wedi newid am byth, ac sy'n newid yn barhaus

Ar unrhyw ddiwrnod penodol, ar unrhyw adeg benodol, mae pobl ledled Cymru yn creu, yn dylunio, yn cynhyrchu ac yn profi creadigaethau artistig arbennig. Mae'r celfyddydau'n rhoi ystyr a phleser i filiynau ohonom a gallant greu cysylltiadau cynaliadwy a rhyfeddol ar draws ein cymunedau. Ac er gwaethaf yr oriau tywyllaf yn sgil yr heriau yr ydym oll wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r celfyddydau'n parhau i fod yn rhan annatod o fywydau llawer o bobl ac mae ganddynt y potensial i gyrraedd a chyfoethogi bywydau llawer mwy.

Ers dyfodiad y pandemig, mae gennym agwedd newydd. Mae llawer ohonom wedi newid ac rydym yn edrych arnom ni ein hunain, ein rhwydweithiau, ein ffrindiau, ein cydweithwyr a'n cymunedau o bersbectif newydd; nid yw Cyngor Celfyddydau Cymru yn wahanol. Rydym ninnau hefyd wedi profi'r byd sy'n newid, ac rydym wedi bod yn newid gydag ef, gan ymateb i'r heriau, a thrawsnewid y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn gweithredu. Pan oedd y pandemig ar ei anterth, fe wnaethom gymryd camau cyflym a chynhyrchiol i gefnogi sector y celfyddydau a helpu i ddiogelu bywoliaeth pobl, felly rydym am fanteisio ar y gwersi a ddysgwyd o'r profiad hwnnw, sy'n golygu parhau i esblygu a chroesawu trawsnewidiad. Mae'r pandemig hefyd wedi cadarnhau'r angen i ni gynllunio cymaint ag y gallwn ar gyfer dyfodol y celfyddydau yng Nghymru, a meddwl o ddifrif am yr hirdymor, yn ogystal â mynd i'r afael â'r heriau mwy dybryd a wynebwn yn awr.

Felly, wrth i ni ddatblygu a chadarnhau ein strategaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf – gwaith a fydd yn creu conglfaen ar gyfer ein dyfodol - rydym yn symud yn gyflym i edrych ar sut y gallwn wneud y defnydd gorau o'n gallu i ariannu i gryfhau a meithrin ein sefydliadau creadigol. Mae'r papur hwn, sef Adolygiad Buddsoddi 2023 – a fwriadwyd, yn draddodiadol i werthuso pa sefydliadau a ddylai fod yn rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru – yn amlinellu dull newydd o ddyrannu cyllid amlflwyddyn i sefydliadau, a gofyniad dwysach ar y sefydliadau hynny a ariennir i gyflawni ein hamcanion. Mae'r dull newydd hwn yn un sy'n symud oddi wrth broses ariannu drafodol a chaeth i fodel llawer mwy hyblyg ac ymatebol i sefydliadau, lle y disgwyliwn i gyrff a ariennir gyflawni canlyniadau yn unol â'n blaenoriaethau. Yn syml, yn y dyfodol, ni fydd Cyngor Celfyddydau Cymru a'r sefydliadau a ariennir ganddo yn cael eu cyfyngu mwyach gan broses Adolygiad Buddsoddi bob pum mlynedd. Yn hytrach byddant yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio partneriaethau mwy hyblyg ond rhai a fydd yn hynod atebol. Bydd y model newydd hwn yn symlach ac yn llai beichus.

Bydd yr addasu hwn yn feiddgar, yn anodd i ni ei weithredu ar adegau, ac efallai'n anghyfforddus i rai; felly, yn ogystal â rhannu ein dull newydd, bwriad y papur hwn yw eich helpu chi – crewyr, rhanddeiliaid, cymunedau a chynulleidfaoedd – i ddeall pam rydym yn edrych ar bethau'n wahanol, a beth y mae hyn yn ei olygu i'r rhai sy'n dymuno cael cyfran o'r arian. Mae'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer model ariannu cydweithredol a chyfunol sy'n ymateb i fyd sy'n newid, gyda chyfiawnder a thegwch wrth ei wraidd.

Ar ôl darllen y ddogfen hon, gobeithio y byddwch wedi eich ysbrydoli a'ch cyffroi i'r un graddau â ni ynglŷn â dyfodol y celfyddydau yng Nghymru ac y bydd y ffactorau sy'n darparu sylfaen ar gyfer y dyfodol hwnnw yn glir i chi. Fe wnaethom wrando arnoch chi yn ystod gweithdai Adolygiad Buddsoddi 2021, a nawr rydym am i chi fod yn barod i ddweud eich barn wrthym am ein hymateb arfaethedig a'n dull gweithredu newydd, ac a yw ein blaenoriaethau'n gywir. Rydym am i chi ystyried a yw ein dull gweithredu yn rhesymol ac yn ystyrlon, ac a ydych yn credu y bydd yn ein galluogi i gefnogi amrywiaeth eang o sefydliadau. Dros yr wythnosau nesaf edrychwn ymlaen at wrando'n astud ar eich barn cyn cyhoeddi ein cynlluniau terfynol.

Bydd yr ymatebion a roddwch i'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i ddatblygu ein dull gweithredu a'n proses newydd. Ni fydd eich ymatebion yn cael eu priodoli i chi na'ch sefydliad ac ni fyddant yn effeithio ar benderfyniadau ariannu unigol yr Adolygiad Buddsoddi.

Mae manylion am sut i ymateb ar gael yng nghefn y ddogfen hon.

## 2 – Nodyn i'ch atgoffa o sut rydym yn ariannu sefydliadau'r celfyddydau

Cyn amlinellu ein dull ariannu newydd a'i gyd-destun, efallai ei bod yn amserol ac yn fuddiol eich atgoffa o genhadaeth a phwrpas Cyngor Celfyddydau Cymru, ac ailedrych ar sut y mae'r sefydliadau a ariennir yn rheolaidd gennym yn cyd-fynd â'n strategaeth. Mewn geiriau eraill, gadewch i ni ystyried y pethau sylfaenol: pwy ydym ni, a beth rydym yn ei wneud? Bydd hyn yn atgoffa'r sefydliadau hynny sydd wedi gweithio gyda ni o'r blaen, ac yn gyflwyniad i'r rhai sy'n newydd i'r broses ariannu.

Cyngor Celfyddydau Cymru yw sefydliad y wlad ar gyfer datblygu, cefnogi a chysylltu'r celfyddydau. Rydym yn gwneud hyn drwy ddosbarthu'r arian cyhoeddus sydd ar gael i ni gan Lywodraeth Cymru a'r arian a gawn ar gyfer achosion da gan y Loteri Genedlaethol. Yn ein gwaith, rydym yn ymdrechu i sicrhau bod y celfyddydau'n ffynnu, ac yn ffynnu'n gynaliadwy, oherwydd credwn fod y celfyddydau i bawb.

Ac mae hynny'n dod â ni at ran hanfodol o'n rhwydwaith – y sefydliadau celfyddydol yr ydym yn eu hariannu ac yn gweithio gyda nhw i wireddu ein gweledigaeth. Rydym yn cefnogi sefydliadau drwy ddyfarnu grantiau tuag at eu costau craidd a'u gweithgareddau. Ar hyn o bryd, y sefydliadau hyn gyda'i gilydd sy'n ffurfio ein Portffolio Celfyddydol, ac maent yn bartneriaid hanfodol i'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Yn hanesyddol, mae aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru wedi cyflwyno degau o filoedd o ddigwyddiadau, a fynychwyd gan filiynau o bobl, ac o ganlyniad, maent yn chwarae rhan allweddol yn ein cenhadaeth o wneud y celfyddydau'n ganolog i fywyd a llesiant y genedl. Mae'r sefydliadau hyn yn cwmpasu sawl math o gelfyddyd – cerddoriaeth, theatr, y celfyddydau gweledol, lleoliadau, dawns, celfyddydau cymunedol, ffilm, syrcas,

llenyddiaeth – ac maent wedi'u lleoli ledled Cymru, gyda llawer ohonynt yn gweithio'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Ond nid dyma'r unig artistiaid a sefydliadau sy'n gwneud gwahaniaeth. Mae'r argyfyngau cenedlaethol a byd-eang diweddar wedi dangos i ni bod llawer o bobl eraill yn gallu gwneud pethau gwych gyda'r adnoddau sydd ganddynt, hyd yn oed os na allant gynllunio ar gyfer yr hirdymor neu ymrwymo i gysylltiadau ariannu hirdymor. Mae crëwyr ar hyd a lled y wlad yn arloesi gyda chelfyddydau newydd a thraddodiadol, mewn amrywiaeth o ieithoedd a hunaniaethau diwylliannol, ac rydym am roi sylw i'r holl artistiaid hyn a'u galluogi i ffynnu a llwyddo.

Felly, wrth i newidiadau ddigwydd o'n cwmpas, mae'n deg ein bod ni hefyd yn newid y ffordd yr ydym yn mynd ati i ariannu'r celfyddydau yn y blynyddoedd i ddod, oherwydd ei fod mor hanfodol i ddyfodol y celfyddydau yng Nghymru. Mae'n bryd meddwl o'r newydd a meddwl yn ystwyth, er mwyn sicrhau y gall pob llais gael ei glywed gan y celfyddydau, ac yn ei dro gyfoethogi bywydau a bod o fudd i hunaniaeth ddiwylliannol, iechyd a llesiant y genedl.

C: Yn yr adrannau 'Byd sydd wedi newid am byth, ac sy'n newid yn barhaus' a 'Nodyn atgoffa o sut rydym yn ariannu sefydliadau'r celfyddydau' rydym yn cyflwyno'r cysyniad bod angen i ni newid pwy yn y celfyddydau yr ydym yn ei ariannu a sut yr ydym yn eu hariannu. A ydych yn cytuno mai dyma'r amser i wneud pethau'n wahanol?

## 3 – Golwg newydd ar ein cyllid - y cyd-destun ar gyfer newid

Rydym yn cydnabod yr angen i Gyngor Celfyddydau Cymru a sector y celfyddydau yng Nghymru addasu i newidiadau cymdeithasol, diwylliannol, llesiant ac iechyd, ac economaidd; mae'r hunanymwybyddiaeth hon yn ymestyn i'n dull newydd o ariannu, ac yn ei ysgogi. Rydym yn edrych ar y model drwy lens newydd, oherwydd y byd o'n cwmpas. Mae'r cyd-destun hwn yn haeddu eglurhad pellach, fel y gallwch chi, ein rhanddeiliaid, gael dealltwriaeth lawn o'r daith yr ydym ni wedi ei dilyn er mwyn newid.

Yn amlwg, mae'r pandemig a'i effeithiau trychinebus yn sylfaenol i hyn. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae sector y celfyddydau wedi bod yn rhan o frwydr ddyddiol i oroesi, gyda bywoliaeth pobl, llesiant personol, ac iechyd oll mewn perygl. Yn ystod y pandemig, gorfodwyd sefydliadau ac artistiaid i ddod o hyd i ffyrdd newydd o greu, rhannu a datblygu. Efallai fod cynulleidfaoedd byw wedi crebachu ond daeth ffyrdd eraill o ymgysylltu â'r celfyddydau i'r amlwg. Ac er bod llawer ohonom wedi cael pleser a chysur yn ein creadigrwydd ein hunain neu greadigrwydd pobl eraill i ymdopi â'r newidiadau a oedd yn aml yn eithafol a thrasig yn ein bywydau, sector y celfyddydau oedd un o'r rhai olaf i ddechrau adfer. Ac mae'n dal i adfer.

Felly, yn wyneb yr heriau hyn a dyfodol sy'n fwy ansicr byth yn wyneb yr argyfwng costau byw, ein tasg yw datblygu ffyrdd newydd o ddiogelu a chynnal y sector. Fe wnaethom ymateb i Covid-19 gydag ystod o fesurau cyllid a chymorth, a dilynwyd hynny gan ein dogfen drafod 'Ailosod y Llwyfan'; a nawr mae'n rhaid i ni ymgorffori'r heriau sy'n wynebu sector sy'n adfer yn yr adolygiad o'n buddsoddiadau.

Yn ystod y pandemig amlygwyd ffactorau cymdeithasol heriol eraill hefyd, gan fod Covid-19 wedi cael effaith ddifrifiol ar y rhai sydd sy'n dioddef tlodi ac anfantais economaidd. Mae'r ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys, Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, a'r mudiad i gryfhau lleisiau ymarferwyr creadigol a chynulleidfaoedd B/byddar, niwroamrywiol ac anabl a chynulleidfaoedd yn yr ymgyrch #niChawnEinDileu, i gyd wedi cynnig ysgogiadau clir a chymhellol pellach i ailfeddwl ac ailystyried.

Eisoes, yn ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad, rydym wedi nodi ein blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â'r annhegwch hwn, a'r newidiadau y mae angen i ni eu gwneud i roi tegwch, amrywiaeth, cynwysoldeb a chyfiawnder cymdeithasol wrth wraidd ein gwaith. Yn y Cynllun, rydym yn pwysleisio ein bod yn "ymroi i ddatblygu dull ar gyfer y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth sy'n ymgysylltu'n rhagweithiol ag unigolion a chymunedau ar draws Cymru wrth benderfynu beth yw diwylliant, pryd mae'n digwydd, pwy sy'n ei greu a phwy sy'n ei brofi." Un o nodau niferus y Cynllun Gweithredu yw'r awydd i wneud ein cyllid yn fwy cynrychioliadol o dirwedd ethnig a diwylliannol Cymru, y parodrwydd i'w gwneud yn haws cael gafael ar gyllid, a'r bwriad i'r cyllid hwnnw gyrraedd cymunedau ehangach. Felly, bydd y weledigaeth newydd a nodir gennym yn yr Adolygiad Buddsoddi hwn yn ffactor allweddol wrth gyflawni'r nodau hynny.

Catalydd arall ar gyfer ein trawsnewidiad yw cydnabod y rhan a chwaraewn wrth ymgorffori dull cyfiawnder hinsawdd o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chreu byd cynaliadwy. Er bod y difrod i'r blaned wedi bod ar waith ers degawdau, dim ond yn fwy diweddar y mae dinasyddion, corfforaethau a llywodraethau wedi cymryd camau sylweddol i wneud gwahaniaeth. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cymryd ei gyfrifoldebau amgylcheddol o ddifrif, ond rydym yn sylweddoli bod gennym ormod i'w ddysgu. Rydym yn ymwybodol o'n dyled i'r blaned, ac rydym yn awyddus i gefnogi ffyrdd o weithio sy'n ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac ehangu pŵer y celfyddydau i sicrhau newid yng Nghymru ac ar draws y byd.

Mae hyn yn ein harwain at y ffactor dylanwadol terfynol yn ein gweledigaeth newydd ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae ei saith nod llesiant a'i phum ffordd o weithio yn rhoi ffocws a chefndir cyson i'n gwaith. Rydym ni, cymaint ag unrhyw un yn ein cenedl, yn ymroddedig i sicrhau newid cynaliadwy a hirdymor i genedlaethau'r dyfodol, ac i ni, mae hynny'n golygu diogelu a datblygu tirwedd ddiwylliannol amrywiol a chyfartal a fydd yn rhoi boddhad i'n plant a phlant ein plant am flynyddoedd i ddod. Felly, wrth wneud penderfyniadau am y sefydliadau a ariennir gennym yn y dyfodol, rydym yn benderfynol o weithio gyda sefydliadau sydd hefyd yn ymgorffori'r Ddeddf a'i nodau yn eu gwaith.

# Saith Nod Llesiant

I wneud yn siŵr ein bod ni gyd yn gweithio tuag at yr un diben, mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrwyd weithio tuag at gyflawni pob un o'r nodau, nid dim ond un neu ddau ohonynt yn unig.



Cymru lewyrchus



Cymru gydnerth



Cymru sy'n fwy cyfartal



Cymru iachach



Cymru o gymunedau cydlynus



Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu




Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

# Pum dull o weithio



## Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.



## Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.



## Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff chyoeddus eraill.



## Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.



## Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

C: Yn yr adran 'Golwg newydd ar ein cyllid - y cyd-destun ar gyfer newid' rydym yn gosod y cefndir o amgylch yr angen i fynd i'r afael â materion fel annhegwch (mewn sawl maes allweddol), yr argyfwng costau byw, a'r argyfwng hinsawdd. Caiff y rhain eu gosod ochr yn ochr â fframwaith cyfreithiol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Pa heriau eraill y mae sector y celfyddydau yn eu hwynebu?

## 4 – Hanfodion ein dull ariannu newydd

Yng nghyd-destun yr holl ffactorau a amlinellir uchod, credwn ei bod yn bryd trawsnewid ein prosesau ariannu er mwyn adlewyrchu natur newidiol Cymru a'r byd yn well, a galluogi sector celfyddydau deinamig sydd wedi'i adfywio. Er mwyn esblygu, rhaid i'n dull gweithredu ni ein hunain fod mor unigryw â'r sefydliadau a'r prosiectau a ariennir gennym.

Felly, beth sy'n newid? Yn syml:

- Rydym yn pennu blaenoriaethau buddsoddi newydd sy'n llywio ein penderfyniadau ariannu, gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu ein hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Rydym yn newid o fodel portffolio i amrywiaeth ehangach o opsiynau ariannu amlflwyddyn ar gyfer sefydliadau, ac o ganlyniad byddwn yn chwilio am bartneriaid i weithio gyda ni i gyflawni ac ysbrydoli mwy o waith ymgysylltu â phob math o gelfyddyd ar gyfer pob unigolyn.
- Mae'r model newydd yn golygu strwythur newydd ar gyfer ariannu, nad yw'n cael ei gyfyngu gan un ffenestr 'Adolygiad Buddsoddi'.
- Sail cytundebau yn y dyfodol fydd tair blynedd o gyllid, gyda'r potensial o hyd at dair blynedd ychwanegol o gyllid craidd, yn dibynnu ar gynnydd a'n hyder ar y cyd yng nghynnydd parhaus y sefydliad.

### a) Blaenoriaethau ar gyfer ein cyllid

Yr hyn sy'n gwbl ganolog i Gyngor y Celfyddydau yw datblygu ac arloesi ar draws y celfyddydau perfformio a gweledol, cerddoriaeth, llenyddiaeth, ffilm, a chelfyddydau meysydd creadigol sy'n dod i'r amlwg, a chefnogi'r sefydliadau creadigol hynny, eu hartistiaid a'u gwneuthurwyr. Ategir hyn gan ein hawydd i sicrhau bod y celfyddydau'n cael eu profi a'u hyrwyddo mewn cymunedau lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae gennym hefyd ymrwymiad dwfn i hyrwyddo grym y cysylltiad rhwng y celfyddydau ac iechyd, i ddatblygu rôl y celfyddydau a chreadigrwydd ym mywydau a dysg pob cenhedlaeth, i gefnogi gwaith cynaliadwy ar draws llwyfannau, mannau a rhwydweithiau byd-eang a lleol, ac i greu perthnasoedd sy'n meithrin rhagolygon rhyngwladol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a bywyd diwylliannol yng Nghymru. Yn ogystal â'n gwaith a'n buddsoddiad ein hunain, rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y mae ein sefydliadau partner yn eu gwneud i'r meysydd gwaith hyn.

Os ydym am adeiladu ar yr amcanion hyn i greu rhwydwaith o sefydliadau sy'n gyffrous yn artistig ac yn gynaliadwy yn y gymdeithas sydd ohoni sy'n newid yn gyflym ac sy'n wynebu heriau ariannol, credwn fod yn rhaid i ni edrych o'r newydd ar ein cyllid. Felly, byddwn yn ceisio ariannu sefydliadau sy'n coleddu'r **chwe blaenoriaeth** ganlynol:

i. **Creadigrwydd**: celfyddyd sy'n ddychmygus, yn unigryw, yn rhyngwladol o ran ei golygon, wedi'i chreu'n uchelgeisiol mewn ffyrdd cyfrifol a pherthnasol, ac y mae unigolion a chymunedau yn gallu uniaethu â hi

Gyda chreadigrwydd wrth wraidd popeth a phawb yn ein sector, mae'n naturiol ei fod yn chwarae rhan arweiniol yn ein penderfyniadau ariannu. Fel Cyngor Celfyddydau Cymru, dylem fod yn warcheidwaid celfyddydau sefydledig, ac yn hyrwyddwyr arferion creadigol newydd ac arferion creadigol cymysg. Gyda'n dull gweithredu newydd, byddwn yn miniogi ein ffocws ar greadigrwydd sy'n gyffrous, yn arloesol, yn amrywiol, yn uchelgeisiol, yn gynrychioliadol, yn berthnasol, yn foesegol gynaliadwy, ac yn rhyngwladol o ran ei olygon.

ii. **Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant**, fel y gall unigolion a chymunedau wneud, cyd-greu a phrofi'r celfyddydau ar eu telerau eu hunain

Rhaid i'n penderfyniadau ariannu ystyried yr effaith ar Gymru gyfan a bod o fudd iddi. Ein bwriad yw cefnogi sector sydd â chysylltiad dwfn â chymunedau, yn enwedig y rhai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd a'r rhai sy'n parhau i wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu â'r celfyddydau. Rhaid i unigolion a chymunedau, waeth beth fo'u cefndir a'u profiad, a lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru, gael y llwybrau a'r adnoddau i wneud a phrofi'r celfyddydau ar eu telerau eu hunain. Rydym am weld pobl yn cymryd rhan weithredol a chreadigol yn y broses o benderfynu beth yw diwylliant, lle mae diwylliant yn digwydd a phwy sy'n ei wneud ac yn ei brofi. Rydym am weld ymrwymiad i gamau gweithredu gwrth-hiliol a gwrth-alluogol a chydnabyddiaeth o'r holl rwystrau sy'n dod yn sgil amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Yn gryno, dylai'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru adlewyrchu bywydau ei holl ddinasyddion.

iii. **Y Gymraeg** yn ffynnu yn ein bywydau creadigol: gallu gwneud, cymryd rhan a phrofi'r celfyddydau yn Gymraeg; a galluogi mynediad at Gymru ddwyieithog ac amlieithog, a dathlu defnydd yr iaith yn y Gymru honno

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac oherwydd yr ymrwymiad hwnnw, hoffem ariannu sefydliadau sy'n datblygu ymdeimlad o gydberchnogaeth o'r Gymraeg, ac sydd wedi ymrwymo i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg mewn Cymru ddwyieithog ac amlieithog. Rydym yn awyddus i weld sefydliadau'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg a chyflawni'r gwasanaeth hanfodol o gynhyrchu gwaith ar gyfer a chyda siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Rydym am i bobl ddeall stori'r Gymraeg a bod yn ymwybodol o'i hanes hir, a'i thwf a'i hesblygiad yn niwylliannau a chymunedau Cymru gyfoes. Hoffem i sefydliadau ystyried y "Cynnig Cymraeg" fel 'nod barcud' o ran y ffordd y maent yn cynnig gwasanaethau'n ddwyieithog, ac i roi gwerth ar brofiad byw o'r Gymraeg ac ar gefnogi sgiliau siarad wrth recriwtio a llywodraethu.

iv. **Cyfiawnder o ran yr hinsawdd** drwy greadigrwydd a chamau gweithredu sy'n gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn foesegol gynaliadwy

Mae angen i bob un ohonom gymryd perchnogaeth o'r argyfyngau hinsawdd a natur. Byddwn yn gwneud hyn drwy gefnogi potensial y celfyddydau i ddychmygu, cysylltu, cyfathrebu ac sicrhau newid yng Nghymru a'r byd drwy empathi, undod ac iachâd. Rydym yn ceisio galluogi artistiaid i deimlo eu bod wedi'u grymuso, eu diogelu a'u cefnogi i ymgymryd â gwaith sy'n ymwneud â chyfiawnder o ran yr hinsawdd. Byddwn yn gweithio gyda'r rhai yr ydym yn eu hariannu i ddatgarboneiddio ein harferion i sicrhau sector celfyddydol a fydd yn garbon niwtral erbyn 2030 ac yn sero net erbyn 2050. Yn ein holl benderfyniadau, byddwn yn gwneud dewisiadau moesegol sy'n ystyried yr effaith ar bobl ac ar y blaned yn lleol ac yn fyd-eang.

v. **Meithrin talent** ar gyfer dyfodol cadarn, gyda llwybrau sy'n caniatáu i bawb ddatblygu creadigrwydd, sgiliau ac arweinyddiaeth

Rydym am i'n sefydliadau a ariennir gydnabod ehangder a dyfnder artistiaid o fewn y sector, a deall bod ecosystem artistig lwyddiannus a chynhwysol yn ei gwneud yn ofynnol i ni i gyd weithio gyda'n gilydd. Mae buddsoddi mewn arweinwyr y dyfodol yn rhan greiddiol o hyn. Rydym am i sefydliadau feithrin sgiliau a datblygu cenedlaethau o arweinwyr ac artistiaid diwylliannol y dyfodol. Byddwn yn chwilio am dystiolaeth bod sefydliadau'n creu llwybrau i bawb ac yn gwrando ar genedlaethau a chymunedau newydd. Rydym am weld hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n cydnabod llesiant yr unigolion hyn a chyda chydnabyddiaeth sy'n gyfiawn ac yn deg.

vi. **Trawsnewid**: manteisio ar gyfleoedd newydd a chymryd risgiau, bod yn wydn ac yn ymatebol i newid, a pharhau i fod yn berthnasol i bobl a chymunedau

Rhaid i'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu ymrwymo i ffordd iach o weithio a diwylliant cadarnhaol, a sicrhau eu bod yn ymatebol, yn arloesol, yn berthnasol ac yn atebol. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu twf, ond byddwn yn holi sut mae sefydliadau'n gwneud penderfyniadau, pwy maent yn eu cynnwys, a chynwysoldeb y penderfyniadau hynny. Rydym yn chwilio am sefydliadau sy'n arwain y ffordd yn eu maes – gan gefnogi a gweithio mewn partneriaeth ag artistiaid unigol, gweithwyr llawrydd a chyrff eraill. Mae hefyd yn bwysig bod gan y sefydliadau a ariennir strwythurau llywodraethu a threfniadol cadarn a gwydn i gyflawni eu cynlluniau, cymryd risgiau a'u rheoli, a chanfod meysydd y mae angen cymorth a chefnogaeth arnynt.

Nod y chwe blaenoriaeth hyn yw diogelu, datblygu a chefnogi dyfodol y celfyddydau yng Nghymru, a bydd y sefydliadau yr ydym yn eu hariannu yn ein helpu i wneud hynny. Yn ystod yr wythnosau, y misoedd a'r blynyddoedd nesaf rydym am archwilio'r blaenoriaethau hyn gyda'r sector, gan weithio gyda'n gilydd i goladu adnoddau, ysbrydoliaeth a dangosyddion cynnydd i'n helpu ni i gyd i feincnodi a mapio ein datblygiad tuag at cyflawni ein gweledigaeth ar y cyd, a'n uchelgais.

### b) Strwythur newydd ar gyfer ein cyllid

Rydym am greu partneriaethau o gydweithio â'n sefydliadau celfyddydol, fel y gallwn ysgwyddo heriau sy'n esblygu gyda'n gilydd. Rydym am symleiddio mynediad at ein cyllid a bod yn fwy ymatebol, er mwyn creu cyfleoedd i sefydliadau o bob maint a phob math o gelfyddyd - o'r lleiaf, y mwyaf prin a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, i'r mwyaf, yr ehangaf a'r mwyaf ffyniannus.

I ategu ein blaenoriaethau newydd, mae angen strwythur ariannu newydd arnom, a fydd yn ymgorffori'r elfennau canlynol:

- y cyfle i sefydliadau gael cyllid am gyfnod cychwynnol o dair blynedd
- y cyfle i sefydliadau gael cyllid am dair blynedd arall (a benderfynir yn ystod 'gwiriad' yn yr ail flwyddyn) ar gyfer sefydliadau sy'n dangos eu bod yn cyflawni eu canlyniadau
- y cyfle i gael cytundebau am flwyddyn ychwanegol (neu fwy) ar gyfer sefydliadau sy'n methu neu y mae angen cymorth arnynt, neu i roi rhybudd y bydd y cyllid yn dod i ben
- y cyfle i gael cyllid ar gyfer rhaglen a phrosiect tair blynedd ar gyfer gwyliau a sefydliadau nad oes angen arian craidd arnynt, neu y penderfynwn beidio â rhoi arian craidd iddynt.

Bydd y modelau newydd hyn ar gyfer blaenoriaethau a strwythur yn rhoi mwy o hyblygrwydd a gallu i ni helpu sefydliadau ar hyd a lled Cymru i ddod yn fwy gwydn, ac i ffynnu a llwyddo. Dylent fynd i'r afael â'r anawsterau a brofir gan sefydliadau sy'n gwneud cais blynyddol ar hyn o bryd, dros gyfnod estynedig, am gyllid prosiectau a rhaglenni, a bydd hefyd yn caniatáu i sefydliadau wneud cais am gyllid ar wahanol adegau yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'u strategaethau eu hunain, yn hytrach nag aros am gyfle bob pum mlynedd.

A rhaid i ni fod yn glir ynglŷn â'n bwriadau: yn y dyfodol, gallai'r dull newydd hwn olygu nad ydym bellach yn cynnal 'digwyddiad' Adolygiad Buddsoddi fel y buom, yn canolbwyntio ar sefydliadau a ariennir; yn hytrach, efallai y byddwn yn adolygu effaith ein holl benderfyniadau ariannu o bryd i'w gilydd, ac yn ystyried sut y mae ein cyllid yn ei gyfanrwydd ar draws y sector yn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol a beth ddylai ein hymateb fod.

### c) Beth fyddwn ni'n ei ddisgwyl gan sefydliadau'r celfyddydau?

Bydd ein dull newydd o ariannu yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor y Celfyddydau wneud penderfyniadau dewr ac anodd ac edrych y tu hwnt i'r arferion a'r hyn a oedd yn 'norm' wrth gynnal adolygiadau buddsoddi blaenorol. Er y gall newid fod yn heriol yn aml, rydym yn hyderus y bydd y ffordd newydd hon o edrych ar bethau yn hynod fuddiol i sefydliadau celfyddydol ac artistiaid yng Nghymru.

Wrth i ni wneud ein penderfyniadau, byddwn yn edrych ar sefydliadau i ddangos sut y gallant ddefnyddio cyllid i ymateb i'n blaenoriaethau i helpu i sicrhau canlyniadau sylweddol, iach a llewyrchus i unigolion a chymunedau. Ni fyddwn yn ariannu sefydliadau sy'n methu yn hyn o beth.

Mae angen i ni fod yn glir hefyd bod cymorth grant a chronfeydd y Loteri Genedlaethol o dan bwysau. Rydym am i sefydliadau ofyn am ddim ond yr hyn sydd ei angen arnynt, ac i beidio â gwneud cais am gynnydd cynyddrannol ar y cyllid presennol.

Byddwn yn gofyn i sefydliadau ddangos:

- eu cynlluniau a'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer y tair blynedd nesaf yn erbyn pob un o'r chwe blaenoriaeth
- lle y maent ar eu taith o ran pob blaenoriaeth a'r hyn y maent wedi'i gyflawni gyda'r adnoddau y maent wedi'u cael hyd yma; bydd hyn yn dangos pa mor ymrwymedig ydynt i ddatblygu pob blaenoriaeth a'u gallu i gyflawni o fewn eu modd
- tystiolaeth eu bod yn enghreifftiau ac yn arweinwyr yn eu maes
- sut y byddant yn cyflawni eu cynlluniau
- sut y maent yn cynnwys cynulleidfaoedd ac unigolion perthnasol wrth wneud penderfyniadau
- sut mae eu trefniadau llywodraethu yn sicrhau sefydliad iach, gyda'r strwythur a'r gallu i adolygu, ymateb ac addasu i newid.
- sut y byddant yn mynd ati i asesu risg

Byddwn yn llai tebygol o seilio ein penderfyniadau ar lefelau ariannu blaenorol unrhyw sefydliad neu ei hanes, ac yn fwy tebygol o edrych ar ansawdd, perthnasedd a rôl gymunedol y gwaith a wneir gan sefydliad ar hyn o bryd. At hynny, byddwn yn edrych i weld a yw sefydliad yn llenwi bwlch sydd efallai wedi'i adael yn wag neu wedi'i dangynrychioli o'r blaen.

Rydym hefyd yn deall o'n profiad ein hunain bod newid cadarnhaol yn daith, a bydd yn bwysig i sefydliadau sy'n ymgeisio rannu eu teithiau trawsnewid eu hunain hyd yma, yn ogystal â'u cynlluniau ar gyfer esblygu ymhellach. Byddwn yn dadansoddi eu llwybr a'u cynnydd, o'u cymharu â'r cymorth, y buddsoddiad a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. At hynny, byddwn am gael gwybodaeth am eu strwythur a'u diwylliant sefydliadol, fel y gallwn fod yn dawel ein meddwl eu bod yn mynd ati'n rhagweithiol i fyfyrio ac addasu, a gwneud penderfyniadau ystyriol mewn ffordd sy'n ymgorffori'r pum ffordd o weithio sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Wrth ymdrechu i gefnogi ystod amrywiol a chynhwysol o sefydliadau, bydd angen i ni ystyried yn ofalus efallai na fydd gan rai ymgeiswyr yr adnoddau na'r profiadau sydd gan eraill, yn enwedig y sefydliadau celfyddydol llai hynny a allai fod yn newydd i'r broses. Byddwn yn sicrhau bod y broses ymgeisio un llwybr mor syml â phosibl i'w chwblhau, ac rydym yn ymrwymo i asesu sylwedd y cais yn fwy na'i arddull.

Gyda hynny mewn golwg, byddwn yn diweddaru ac yn symleiddio ein proses ymgeisio ac yn rhoi cyfle i sefydliadau roi enghreifftiau o sut y maent wedi sicrhau newid yn y gorffennol, sut y maent wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau, a sut y byddai cyllid yn trawsnewid cynlluniau nad ydynt wedi gallu eu gweithredu yn y gorffennol.

Ond rydym am i sefydliadau fod yn onest gyda nhw eu hunain a gyda ni ynglŷn â lle maen nhw ar eu taith drawsnewid. Er mwyn croesawu'r newydd, rydym yn gwbl ymwybodol bod angen i ni fod yn hyblyg ac yn ystwyth ein hunain, ond mae angen i ni holi i ymgeiswyr fod yn glir ynglŷn â'u hanghenion, fel y gallwn roi'r ystwythder a'r hyblygrwydd hwnnw ar waith yn effeithiol. Rydym yn barod i fentro, cyn belled â'n bod yn deall y risgiau.

**Rhan (a)**

C: Yn rhan (a) yr adran 'Hanfodion ein dull ariannu newydd', rydym yn mireinio'r meysydd ffocws lefel uchel yn chwe blaenoriaeth fwy penodol a fydd yn sail i gwestiynau ein ceisiadau a'n hasesiad. A ydych yn meddwl bod y blaenoriaethau'n adlewyrchu blaenoriaethau'r sector a'r genedl?

C: A ydych yn meddwl y dylid dileu unrhyw flaenoriaethau? (Dywedwch wrthym pa rai a pham)

C: A ydych yn meddwl bod unrhyw flaenoriaethau ar goll? (Dywedwch wrthym beth ydyn nhw a pham)

**Rhan (b)**

C: O edrych ar ran (b) yr adran 'Hanfodion ein dull ariannu newydd', a ydych yn meddwl mai un broses ymgeisio ar gyfer pob ymgeisydd yw'r ffordd gywir ymlaen i sicrhau cysondeb a thegwch? Os nad ydych yn cytuno â hynny, dywedwch wrthym pam.

C: A ydych yn meddwl mai cynnig cyllid mwy hyblyg am hyd at dair blynedd, i'w adolygu yn yr ail flwyddyn, yw'r dull cywir?

C: A ydych yn gweld unrhyw bryderon yn gysylltiedig â'r dull hwn neu unrhyw beth arall yn adran (b)?

**Rhan (c)**

C: Mae rhan (c) yr adran 'Hanfodion ein dull ariannu newydd' yn disgrifio'r trosolwg lefel uchel o'r hyn y byddwn yn gofyn i sefydliadau ei wneud er mwyn ymgeisio. A ydych yn meddwl y dylem ofyn am unrhyw beth arall? Beth a pham?

C: A ydych yn meddwl ein bod yn gofyn am unrhyw beth na ddylem fod yn gofyn amdano? Beth a pham?

# RHAN DAU:
# YMUNO Â'N TAITH – SUT A PHRYD

## 1 – Ein hymrwymiad i chi

Gwyddom y gall gwneud cais am gyllid fod yn heriol, yn ddryslyd ac, ar adegau, yn emosiynol. I rai sefydliadau mae'n ymdrech enfawr.

Felly, yn ogystal â symleiddio'r broses ymgeisio, rydym yn bwriadu bod mor gefnogol, ymaddasol ac ymatebol â phosibl. Byddwn yn rhoi arweiniad ar yr elfennau hanfodol y disgwyliwn eu gweld mewn cynllun busnes. Byddwn yn rhannu ein barn ar ddangosyddion cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau. Byddwn yn darparu dolenni i adnoddau defnyddiol i'ch ysbrydoli a'ch helpu gyda'ch gwaith cynllunio.

Rydym hefyd am fod yn glir ynglŷn â'n disgwyliadau. Rydym am fod yn uchelgeisiol ac yn feiddgar wrth greu'r rhwydwaith newydd hwn o bartneriaid, sy'n golygu na fyddwn yn gallu cefnogi pawb, ac efallai na fydd y rhai sydd wedi cael cyllid o'r blaen yn parhau i dderbyn cyllid os na allant gyflawni ein blaenoriaethau. Felly, os bydd aelodau presennol y portffolio yn methu â chael cyllid amlflwyddyn yn y broses hon, byddwn yn gweithio gyda nhw i ddod o hyd i ddyfodol newydd. Os bydd hyn yn golygu bod yn rhaid i sefydliadau wneud y penderfyniad dewr ond siomedig i roi'r gorau i'w gwaith, byddwn yn gwneud ein gorau i gefnogi'r broses hon, ac i ddathlu eu cyflawniadau a'u heffaith. Gall hyn fod yn anodd i bobl ei glywed a'i ddeall, ond os na allwn ddangos drwy ein penderfyniadau ein bod yn esblygu, ni fyddwn yn gwneud dim ond atgyfnerthu'r sefyllfa sydd ohoni.

Yn ychwanegol at yr ymrwymiadau hyn, bydd yr egwyddorion cyffredinol canlynol yn cael eu cymhwyso i'r broses:

- Sicrhau bod un broses adolygu yn cael ei chymhwyso'n gyfartal i bob sefydliad.
- Croesawu ceisiadau yn Gymraeg, Saesneg a BSL, a sicrhau triniaeth deg a chyfartal waeth beth fo'u hiaith.
- Edrych ar yr ystod lawn o weithgareddau a ariennir, gan archwilio i ba raddau y mae artistiaid a chynulleidfaoedd yng Nghymru yn cael eu gwasanaethu'n briodol.
- Annog y gymuned gelfyddydol i gymryd rhan, drwy ymgynghori, yn y gwaith o'n helpu i lunio'r broses a ddefnyddiwn.
- Sicrhau proses ymgynghori agored ac ystyrlon gyda phartneriaid ariannu a rhanddeiliaid.
- Gwneud penderfyniadau strategol, gyda'r dewisiadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar fynegiant clir o'n blaenoriaethau.
- Ymrwymo i fod yn agored ac yn dryloyw, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i'r cyhoedd.

- Cydnabod y cyd-destun economaidd presennol ac edrych am gynigion sy'n cynrychioli gwerth clir am arian drwy leihau'r ddibyniaeth ar gyllid Cyngor y Celfyddydau.
- Cynyddu cynaliadwyedd drwy annog sefydliadau i ddatblygu cynigion sy'n gadarn, yn wydn ac wedi'u gwreiddio yn y gymuned y maent yn dibynnu arni am gymorth.
- Ymrwymo i ganiatáu digon o amser i reoli canlyniadau'r broses yn briodol.
- Cynnig cyfle i ymgeiswyr a chanddynt anghenion mynediad ymateb yn y fformat o'u dewis e.e. yn ysgrifenedig, ar lafar, iaith arwyddion ac ati a rhoi cymorth i'r ymgeisydd i'w helpu i ddarllen a deall cwestiynau'r cais.
- Sicrhau bod y ffordd y byddwn yn rheoli unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau ar gyfer ein swyddogion a'n haelodau yn cydymffurfio'n llawn â'n Cod Arfer Gorau cyhoeddedig.
- Darparu cyfeiriad e-bost pwrpasol i gyflwyno unrhyw gwestiynau. Byddwn yn ymateb i'r rhain drwy gyhoeddi'r cwestiynau (ond nid eu ffynhonnell) a'n hatebion drwy gydol y broses ymgynghori a chymhwyso.

Rydym hefyd am dynnu sylw at y ffaith y bydd ein harian Loteri Genedlaethol yn parhau drwy gydol yr Adolygiad gan gynnwys Creu, a all gefnogi ceisiadau datblygu busnes am hyd at £10,000.

C: Gan edrych ar yr adran 'Ein hymrwymiad i chi'. A ydych yn meddwl bod ein hymrwymiadau i chi yn ddigon clir?

C: A oes unrhyw ymrwymiadau eraill gan Gyngor Celfyddydau Cymru yr hoffech eu gweld yn ystod y broses?

## 2 – Sut y gall sefydliadau wneud cais am gyllid amlflwyddyn

### a) Trosolwg o'r broses

Bydd y cyfnod ymgeisio o fis Ionawr tan fis Mawrth 2023:

- Bydd y ffurflen gais yn symlach na'r hyn yr oedd mewn blynyddoedd blaenorol, ond yn ddigon cadarn i'n galluogi i gasglu'r wybodaeth a'r data hanfodol sydd eu hangen arnom.
- Gwneir hyn drwy ein porth ariannu; bydd angen i sefydliadau gofrestru gyda'r porth erbyn diwedd 2022 os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny.
- Byddwn yn gofyn cwestiynau meintiol a chymhwysol am eich sefydliad, a chyfres o gwestiynau ansoddol yn seiliedig ar ein chwe blaenoriaeth a'ch uchelgeisiau.
- Bydd angen cynllun busnes fel dogfen ategol i gefnogi eich cais. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol a byddwch yn gallu cyfeirio ato yn eich atebion.
- Bydd angen i sefydliadau benderfynu faint o gyllid y maent yn bwriadu gofyn amdano a darparu sail resymegol wedi'i disgrifio'n glir ar gyfer y lefel ariannu y gofynnir amdani.
- Bydd cymorth mynediad ar gael gennym a byddwn yn darparu gwasanaeth llawn i unrhyw ymgeisydd sy'n dymuno gwneud cais drwy fideo neu sain ac ati. Byddwn yn ychwanegu'r data at y porth fel sy'n ofynnol i fodloni ein safonau.

### b) Llinell amser

- Croesewir ceisiadau rhwng dydd Llun 9 Ionawr 2023 a dydd Gwener 31 Mawrth 2023.
- Caiff penderfyniadau terfynol eu cadarnhau gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ynghyd â chytundeb ar y gofynion a'r amodau, ym mis Medi 2023.
- Bydd cyllid rheolaidd yn dechrau ar 1 Ebrill 2024.

C: Yn yr adran 'Sut y gall sefydliadau wneud cais am gyllid amlflwyddyn', rydym yn disgrifio trosolwg o'r broses a'r llinell amser. A ydych yn deall yr hyn y byddwn yn gofyn amdano a'r prif ddyddiadau ar gyfer ceisiadau a phenderfyniadau?

C: A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ynglŷn â'r Trosolwg neu'r Llinell Amser?

## 3 – Ein proses asesu

Yn dilyn gwiriad cymhwysedd sylfaenol, bydd ein hasesiad yn destun proses pedwar cam:

- Gwiriad cymhwysedd cais unigol ac adolygiad gan Swyddog Cyngor Celfyddydau Cymru, a fydd wedi'i hyfforddi i asesu ceisiadau.
- Yna, bydd hyn yn mynd at grŵp Swyddogion a chydweithwyr celfyddydol sydd â'r arbenigedd priodol i ystyried, adolygu a chymedroli asesiad cam swyddog y cam cyntaf.
- Yna caiff y canlyniadau eu hadolygu gan grŵp a gaiff ei gynnull o'n Uwch Dîm Arwain a phob un o Gadeiryddion y grwpiau ail gam, a fydd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor.
- Y Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran llwyddiant neu fethiant y cais.

C: Yn yr adran 'Ein proses asesu', rydym yn disgrifio taith fewnol eich cais. A ydych yn deall pa gamau y bydd eich cais yn mynd drwyddynt fel rhan o'r broses asesu?

C: A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ar 'Ein proses asesu'?

## 4 – Sut y byddwn yn asesu ceisiadau

Byddwn yn canolbwyntio ar y wybodaeth yn y cais gan gynnwys y cynllun busnes ategol, y gyllideb a thystiolaeth o waith. Byddwn yn asesu'r wybodaeth hon ar draws y cwestiynau yn y cais sy'n cyd-fynd â'n chwe blaenoriaeth.

Rydym hefyd yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus a'n cofnodion ein hunain.

C: Yn yr adran 'Sut y byddwn yn asesu ceisiadau', rydym yn disgrifio'r dogfennau sylfaenol a'r ffactorau ehangach a fydd yn sail i'n gwaith asesu ceisiadau. A ydych yn deall pa wybodaeth y byddwn yn ei defnyddio fel rhan o'r broses asesu?

C: A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ar 'Sut y byddwn yn asesu ceisiadau'?

## 5 – Ein cynnig ariannu

### a) Cynigion ac estyniadau

Fel y nodir uchod, y cyfnod cychwynnol a gynigir fydd tair blynedd, er y gallwn gwtogi'r cyfnod os credwn ei fod yn briodol.

Bydd y drafodaeth a'r cyfle i gadarnhau estyniad i'n cytundeb ariannu am gyfnod pellach o dair blynedd neu lai yn codi yn yr ail flwyddyn wrth 'wirio' cynnydd.

Byddwn yn rheoli'r gwaith o adnewyddu cyllid ar sail wedi'i deilwra yn unol â'n hasesiad o gyflawniad sefydliad yn erbyn ein blaenoriaethau a'i berfformiad cyffredinol. Dim ond ar ôl iddo gael cadarnhad o'i lefel cyllid ei hun gan Lywodraeth Cymru y bydd modd i'r Cyngor gadarnhau cyllid y blynyddoedd i ddod. Felly, bydd yn rhaid i ni osod amod bod unrhyw gynnig a wnawn yn seiliedig ar y cyllid sydd ar gael. Gofynnir i ymgeiswyr gynnwys ffigur ar gyfer cyllid Cyngor y Celfyddydau ar gyfer 2024/25, 2025/26, a 2026/27 ond byddwn yn cadarnhau ffigurau ariannu yn flynyddol. Ni ddylai ffigurau cynllunio a ddefnyddir ar gyfer y cyfnod gweithredu y tu hwnt i'r tair blynedd gyntaf yng nghynlluniau busnes sefydliad gymryd unrhyw gynnydd na gostyngiad mewn incwm grant yn ganiataol.

Rydym yn cadw'r hawl i wneud cynnig is na'r hyn y mae ymgeisydd yn gofyn amdano, neu i deilwra cyllid ar draws cyfnod y cytundeb.

Byddwn yn ystyried llunio cytundebau ariannu aml flwyddyn gydag ymgeiswyr i'r Loteri Genedlaethol ar gyfer rhaglenni a phrosiectau, lle y bo'n briodol, i'w cynorthwyo gyda'u gwaith cynllunio tymor hwy.

### b) Rheolaeth Cyngor Celfyddydau Cymru o gyllid yn y dyfodol

Bydd Cyngor y Celfyddydau yn mabwysiadu dull newydd o ymdrin â'i waith cynllunio ariannol amlflwyddyn ei hun, er mwyn caniatáu iddo lunio cytundebau amlflwyddyn gyda sefydliadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn ogystal ag ymestyn cytundebau ariannu presennol neu eu dirwyn i ben.

Bydd manylion llawn ein dull ariannu ar gael yn ein Cynllun Strategol, Ebrill 2023.

C: Yn yr adran 'Ein cynnig ariannu' rydym yn disgrifio, ar lefel uchel, y cyfnodau ariannu arfaethedig y gallem eu cynnig a phryd y gellid eu hadnewyddu (bydd y modd y gallai sefydliadau ddirwyn y trefniadau ariannu hyn i ben yn rhan o broses ar wahân). A ydych yn deall yr hyn yr ydym yn ei gynnig yma ac yn cytuno â'r cynnig?

C: A oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw beth yn yr adran hon?

## 6 – Monitro ac atebolrwydd

Bydd yn ofynnol i bob sefydliad y dyfernir cyllid rheolaidd amlflwyddyn iddo gytuno ar gytundebau ariannu a'u llofnodi gyda Chyngor Celfyddydau Cymru. Bydd y rhain yn ymgorffori gofynion y Contract Diwylliannol sy'n cael ei ddatblygu gan Gyngor y Celfyddydau mewn partneriaeth â Cymru Greadigol a Llywodraeth Cymru, a byddant yn cynnwys:

- gwella amrywiaeth bwrdd, gweithlu a rhaglenni gwaith y sefydliad
- cynyddu cyfleoedd i artistiaid unigol a gweithwyr llawrydd creadigol
- sicrhau bod y rhai sy'n gweithio yn y celfyddydau yn cael eu talu'n deg
- annog sefydliadau i fesur effaith amgylcheddol a llesiant eu gweithgareddau yn erbyn y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd y cytundeb ariannu hefyd yn nodi'r canlyniadau y disgwylir eu cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y sefydliad a Chyngor Celfyddydau Cymru, ac ar ôl cytuno ar y cyflawniadau, byddant yn cael eu hadrodd i'n Cyngor a'u cyhoeddi ar wefan y sefydliad ac yn ei adroddiad blynyddol.

C: Mae'r adran 'Monitro ac atebolrwydd' yn rhoi trosolwg lefel uchel iawn o'r egwyddorion rydym yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer monitro sefydliadau sy'n cael eu hariannu. Gan gydnabod nad yw'r manylion llawn (gan gynnwys elfennau fel y Contract Diwylliannol) ar gael eto, a ydych yn deall egwyddorion cyffredinol defnyddio cytundebau ariannu a'r Contract Diwylliannol arfaethedig fel rhan o'r broses fonitro gyffredinol?

C: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar yr adran 'Monitro ac atebolrwydd'?

## 7 – Cymhwysedd

Sefydliadau y gellir eu hystyried yn yr Adolygiad Buddsoddi (ac felly'n 'gymwys' i gael cyllid yn y dyfodol) yw:

- unrhyw sefydliad sydd:
  - wedi'i leoli yng Nghymru a chanddo gyfansoddiad ffurfiol. Mae'r mathau o sefydliadau sy'n gymwys yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):
    - Cwmni Cyfyngedig drwy Warant
    - elusen gofrestredig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
    - Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)
    - Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC)
    - rhan o Awdurdod Lleol
    - rhan o brifysgol

Noder ei bod yn rhaid i sefydliadau dielw a chanddynt gyfansoddiad gwahanol siarad â ni i gadarnhau cymhwysedd cyn gwneud cais neu fel arall efallai na fydd eu cais yn cael ei asesu.

  - â chyfansoddiad/memorandwm ysgrifenedig ac erthyglau cymdeithasu sy'n adlewyrchu ffocws ar y celfyddydau
  - wedi cofrestru o leiaf bum ymddiriedolwr/cyfarwyddwr gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau erbyn 31 Ionawr 2023 neu, Fwrdd Cynghori ar gyfer y sefydliadau hynny a allai gael eu harwain gan gorff statudol (e.e., Awdurdod Lleol, Prifysgol neu'r BBC)
  - wedi cynhyrchu o leiaf ddwy flynedd o ddatganiadau ariannol (cyfrifon archwiliedig neu ddogfennau cyfatebol ar gyfer eich sefydliad neu awdurdod lleol/adran brifysgol) gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau (lle bo'n briodol)
  - yn gallu dangos hanes o hyrwyddo a rheoli rhaglen o weithgarwch celfyddydol o safon sy'n canolbwyntio ar brosiectau neu raglen gydol y flwyddyn

- consortia o sefydliadau, ar yr amod bod pob aelod o'r consortiwm yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn (a) uchod (bydd angen i un sefydliad gymryd cyfrifoldeb fel ymgeisydd arweiniol a rheoli'r berthynas ariannu).

Noder hefyd nad yw'r ffaith bod sefydliad yn gymwys ar hyn o bryd yn gwarantu y bydd yn cael cyllid yn y dyfodol.

Ni fydd y canlynol yn gymwys:

- Unigolion
- Ysgolion (sefydliadau addysgol llawn amser sy'n annibynnol neu o dan reolaeth awdurdod lleol)
- Cwmnïau Cyfyngedig â chyfranddaliadau
- Cwmnïau sydd ag unig gyfarwyddwyr neu gwmnïau sydd â dim ond dau gyfarwyddwr (neu fwy o gyfarwyddwyr) sy'n perthyn i'w gilydd neu'n byw yn yr un cyfeiriad.

C: Gan edrych ar yr adran 'Cymhwysedd', a ydych yn deall pwy all wneud cais fel rhan o'r broses hon ar sail y wybodaeth a ddarperir?

C: A oes unrhyw newidiadau y byddech chi'n eu gwneud i'r meini prawf cymhwysedd? Os felly, beth ydynt a beth yw eich rhesymau?

## 8 – Apelau

Rydym yn disgwyl rheoli ein proses o wneud penderfyniadau i'r safon uchaf. Fodd bynnag, byddwn yn sefydlu proses annibynnol ar gyfer ystyried apelau ar sail tegwch y broses yn unig. Rydym wedi ymgynghori o'r blaen ar y broses hon a bydd y broses apelio ar gyfer ein Hadolygiad Buddsoddi diwethaf yn sail i Broses Apelio 2023.

C: A oes gennych unrhyw sylwadau ar ein proses apelio?

## 9 – Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data

Rydym wedi ymrwymo i wneud y broses Adolygiad Buddsoddi mor agored a thryloyw â phosibl. Credwn fod gan y cyhoedd yr hawl i wybod sut rydym yn gwario arian cyhoeddus a sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau ariannu. Ein nod, felly, yw cyhoeddi'r holl ddeunydd perthnasol ar ein gwefan, ac eithrio gwybodaeth sy'n wirioneddol gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif.

Rydym wedi'n rhestru fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Yn ôl y gyfraith, efallai y bydd yn rhaid i ni ddarparu eich dogfennau cais a gwybodaeth am ein hasesiad i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am eu gweld o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Efallai na fyddwn yn rhyddhau'r rhannau hynny o'r dogfennau a gaiff eu cwmpasu gan un neu fwy o'r eithriadau o dan y Ddeddf. Gweler y dudalen Rhyddid Gwybodaeth ar y wefan i gael gwybodaeth am ryddid gwybodaeth yn gyffredinol a'r eithriadau.

Ni fyddwn yn rhyddhau unrhyw wybodaeth am geisiadau yn ystod y cyfnod asesu, gan y gallai hyn ymyrryd â'r broses o wneud penderfyniadau. Mae ein polisi ar Ryddid Gwybodaeth ar gael ar ein gwefan.

Mae diogelu preifatrwydd a data personol ein cleientiaid a'n hymwelwyr o'r pwys mwyaf i ni. Bydd unrhyw ddata personol a dderbynnir ac a brosesir fel rhan o'r Adolygiad Buddsoddi yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Mae rhagor o fanylion am ein cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn, yn enwedig ein trefniadau ar gyfer ymdrin â cheisiadau am gyllid a'u hasesu, i'w gweld yn ein cyhoeddiad Polisi Preifatrwydd.

## 10 – Beth yw eich barn chi?

Yn y papur hwn, rydym wedi amlinellu ein dull newydd arfaethedig o ymdrin â'r broses Adolygiadau Buddsoddi. Nawr rydym yn awyddus i glywed gennych chi. Rydym yn ymgynghori ar y dull gweithredu hwn ac mae angen eich adborth arnom.

Rydym yn gofyn i chi ymateb i'r cwestiynau yn y ddogfen hon.

Gallwch ddod o hyd i ddogfennau cysylltiedig yn ogystal â diweddariadau yn yr adran Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan. Bydd yno hefyd ddolen i arolwg ar-lein y gallwch ei ddefnyddio i ymateb.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch i lunio eich ymateb, anfonwch e-bost atom drwy adolygiadbuddsoddi@celf.cymru.

Rydym hefyd yn cynnal cyfres o sesiynau ymgynghori wedi'u hwyluso, ac mae'r manylion ar ein gwefan.

Y dyddiad cau ar gyfer cyfrannu at yr ymgynghoriad yw 5pm, 10 Hydref 2022.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn cyhoeddi'r canlyniad a'n hymateb. Byddwn yn esbonio lle yr ydym wedi gwneud newidiadau a lle yr ydym wedi penderfynu cadw at ein cynigion gwreiddiol. Byddwn hefyd yn esbonio'r rhesymau dros ein penderfyniadau.